

---

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

---

<b>Enw / Name:</b>	Meilyr Rowlands
<b>Rôl / Role:</b>	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>E-bost / Email:</b>	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
<b>Rhif Ffôn / Tel No:</b>	029 2044 6446
<hr/>	
<b>Dyddiad / Date:</b>	29.03.21
<b>Pwnc / Subject:</b>	<b>Arweiniad ar y Cwricwlwm i Gymru: Iaith Arwyddion Prydain</b>

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

At ei gilydd, mae'r deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr byddar a dysgwyr â nam ar eu clyw gryn dipyn yn is na rhai dysgwyr nad oes ganddynt unrhyw nam ar eu clyw. Fodd bynnag, nid oes anabledd dysgu o reidrwydd gan ddysgwyr byddar ac sydd â nam ar eu clyw.

Rydym yn cefnogi ymdrechion i wella profiad dysgu, deilliannau addysgol a chyfleoedd bywyd yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod yna grwpiau eraill o ddysgwyr, sydd ag anghenion addysgol arbennig ond dim anabledd dysgu o reidrwydd, y mae eu deilliannau addysgol yr un mor wael. Byddem yn ddiolchgar i wybod pa gamau sy'n cael eu cymryd o ran ymgynghoriadau / dogfennau arweiniad sy'n ystyried anghenion grwpiau eraill o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gyfartal, er enghraifft y rhai â nam ar eu clyw a'r rhai ag awtistiaeth. Er ein bod yn cydnabod bod y camau pwysig sy'n cael eu cymryd yn yr arweiniad yn destun ymgynghoriad, y brif ystyriaeth yw derbyn iaith Arwyddion Prydain [BSL] fel iaith. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio hyn yn llwyddiannus ac yn darparu enghreifftiau defnyddiol o sut dylid ystyried iaith Arwyddion Prydain wrth gynllunio, cyflwyno a gweithredu'r cwricwlwm. Felly, mae'r arweiniad yn amlygu'r angen i ystyried anghenion plant byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y dylai pob dysgwr, beth bynnag fo'i anghenion, gael cyfleoedd i ddatblygu ei wybodaeth, medrau a dealltwriaeth ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi?

<b>Ydw</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydw</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

i) Os 'ydw', beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i (iii) isod.)

Ysgol cyfrwng Cymraeg (cynradd)		Sefydliad addysg uwch	
Ysgol cyfrwng Cymraeg (uwchradd)		Awdurdodau esgobaethol	
Ysgol cyfrwng Cymraeg (arbennig)		Consortia rhanbarthol	
Ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd)		Awdurdod lleol	
Ysgol cyfrwng Saesneg (uwchradd)		Darparwr hyfforddiant preifat	
Ysgol cyfrwng Saesneg (arbennig)		Trydydd sector	
Ysgol ddwyieithog (cynradd)		Llywodraeth	

Ysgol ddwyieithog (uwchradd)		Dysgu oedolion yn y gymuned	
Ysgol ganol cyfrwng Cymraeg		Sefydliad dyfarnu	
Ysgol ganol cyfrwng Saesneg		Undeb addysgu	
Uned cyfeirio disgyblion (UCD)		Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth)	
Ysgol arbennig		Corff llywodraethol	
Lleoliad nas cynhelir a ariennir		Arall (nodwch): Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru	x
Coleg addysg bellach			

ii) Beth yw eich prif rôl?

Pennaeth		Canghellor / Is-ganghellor	
Athro		Darlithydd	
Ymarferwr		Arloeswr	
Athro newydd gymhwyso		Llywodraethwr	
Cynorthwydd addysgu		Ymgynghorydd her	
Uwch arweinydd		Swyddog gwella ysgolion	
Athro cyflenwi		Prif Arolygydd	x
Pennaeth / Is-bennaeth		Arall (nodwch):	

iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

Rhiant neu ofalwr		Cyflogwr	
Oedolyn dros 18 oed (nid rhiant na gofalwr)		Prentis	
Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed)		Arall (nodwch):	
Myfyriwr / academydd			

iv) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

<b>Ydw</b>	✓	<b>Nac ydw</b>	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------

v) Os 'ydw', nodwch.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Cwestiwn 2** – A yw'r arweiniad cyhoeddedig ar y Cwricwlwm i Gymru a'r arweiniad drafft hwn ar y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain wedi'i alinio'n glir?

<b>Ydy ✓</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Esboniwch eich ateb**

Mae'r arweiniad yn darparu rhesymeg glir ar gyfer cydnabod Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith, ac yn amlygu'n glir yr angen i'w hystyried wrth gynllunio, cyflwyno a gweithredu cwricwlwm ar gyfer yr holl ddysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw. Dangosir hyn yn yr enghreifftiau a ddarperir yn y pedwar diben. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r cysylltiadau.

Wrth ystyried sut dylid datblygu medrau trawsgwricwlaidd, gallai fod yn fuddiol cysylltu ag arweiniad y cwricwlwm ar y medrau hyn. Dylid datblygu'r medrau hyn ar gyfer yr holl ddysgwyr ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm.

Mae'n bwysig cydnabod y dylai dysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw gael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

Nid oes anabledd dysgu gan ddysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw o reidrwydd, ac o'r herwydd, ni ddylai disgwyliadau ar gyfer plant byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw fod yn wahanol o gwbl i ddisgwyliadau o ddysgwyr eraill.

**Cwestiwn 3** – A yw'r arweiniad ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ac arweiniad drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain wedi'i alinio'n glir?

<b>Ydy</b>	✓	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

## Esboniwch eich ateb

Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio'n glir at y ffaith y dylid ystyried yr arweiniad fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (ILiCh).

Mae'r cysylltiadau clir ag ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn fuddiol i arwain ysgolion a lleoliadau eraill wrth iddynt gynllunio'r agwedd hon ar eu cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen cymorth ac arweiniad ymarferol ar ysgolion a lleoliadau eraill. Heblaw hyperddolenni ag adnoddau allanol, nid yw'n glir pa gymorth neu arweiniad ymarferol fydd yn cael eu cynnig i ysgolion.

**Cwestiwn 4** – A yw arweiniad drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion dysgwyr byddar a thrwm eu clyw ac yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain fel iaith gyntaf / prif iaith ac anghenion dysgwyr eraill y mae iaith Arwyddion Prydain yn drydedd iaith neu'n iaith ddilynol iddynt (fel Ffrangeg neu Almaeneg)?

<b>Ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

## Esboniwch eich ateb

Wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae'n bwysig fod lleoliadau ac ysgolion yn cynllunio i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn Cymraeg, Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol sy'n cynnwys iaith Arwyddion Prydain, pan fydd yn briodol. Mae arweiniad iaith Arwyddion Prydain yn cyfeirio at y ffaith fod disgrifiadau o ddysgu ar gyfer iaith Arwyddion Prydain fel trydedd iaith neu iaith ddilynol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Rydym yn croesawu'r bwriad hwn gan y bydd y rhain yn dangos dilyniant o gam dilyniant 3 i gam dilyniant 5, yn unol â disgrifiadau o ddysgu ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym yn deall y bydd disgrifiadau o ddysgu iaith Arwyddion Prydain ar gael ochr yn ochr â'r disgrifiadau o ddysgu ar gyfer Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill yn yr arweiniad ar gyfer iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu o hydref 2021. Mae'n amlwg y bydd angen ystyried y camau cynnar hyn yn ofalus. Fodd bynnag, mae'n anodd gwerthuso ar hyn o bryd i ba raddau y mae'r arweiniad ar gyfer iaith Arwyddion Prydain yn cynorthwyo disgyblion sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain fel trydedd iaith.

Byddai'r arweiniad yn cael ei gryfhau ymhellach trwy ystyried arweiniad clir ar sut dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu dulliau effeithiol o arwyddo dwyieithrwydd. Yn benodol, i wella'r profiad dysgu, deilliannau addysgol a'r cynnig cwricwlwm ar gyfer disgyblion byddar, dylai hyn gynnwys arweiniad clir ar gynorthwyo lleoliadau addysgol prif ffrwd â darpariaeth ag adnoddau, lle gall y staff a'r disgyblion eraill yn yr ysgol arwyddo. Er bod y rhan fwyaf o blant byddar yn dod o deuluoedd sy'n clywed, byddant yn cael eu haddysgu am ddiwylliant byddar, ac yn ei brofi. Mae

cwricwlwm sy'n cynnig dull 'dwyieithog' o ran addysg yn darparu cyfle i ddisgyblion byddar brofi 'diwylliant clywed' eu cartref (os felly y mae hi) a 'diwylliant byddar' y gymuned fyddar.

**Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a fydd y cyfeiriadau yn adran hawliau dynol ac amrywiaeth yr arweiniad hwn at erthyglau penodol o CCUHP yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i gynllunio, dylunio a gweithredu eu cwricwlwm?

<b>Byddan</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Na fyddan</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

#### Esboniwch eich ateb

Dylai ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol eisoes fod yn ymwybodol o erthyglau CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a dyletswyddau yn deillio o'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd. Er ei bod yn ddefnyddiol atgoffa cyrff am y rhain, gellid cryfhau'r maes hwn yn yr arweiniad. Gallai fod yn fwy priodol cyfeirio at y rhain yn y rhagair trosfwaol a ddarperir yng nghyhoeddiad y Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, gellid cyfeirio at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, a'u haliniad â Blaenoriaeth Tri y Genhadaeth Genedlaethol, sef: tegwch, rhagoriaeth a lles.

**Cwestiwn 6** – Darperir rhai disgrifiadau enghreifftiol o ddysgu yn arweiniad drafft laith Arwyddion Prydain. Yn eich barn chi, a oes yna unrhyw agweddau penodol ar ddilyniant mewn laith Arwyddion Prydain y dylid eu hadlewyrchu yn y disgrifiadau o ddysgu a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru?

<b>Oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

#### Esboniwch eich ateb

Mae'r agweddau ar ddilyniant ac asesu yn fuddiol, ac yn alinio'n glir ag arweiniad y cwricwlwm. Mae'n fuddiol fod cysylltiadau clir wedi cael eu gwneud â'r Maes Dysgu a Phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Fodd bynnag mae defnyddio laith Arwyddion Prydain yn berthnasol i bob maes dysgu. Mae adran "cysylltiadau allweddol rhwng laith Arwyddion Prydain a meysydd dysgu a phrofiad eraill" yr arweiniad yn symud rhwng darparu enghreifftiau o'r modd y gellid defnyddio meysydd dysgu i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o ddiwylliant byddar i ddisgrifio cyfleoedd ar gyfer dysgwyr byddar a'r rhai sydd â

nam ar eu clyw i ddatblygu medrau. O ganlyniad, nid yw'n gwbl glir beth mae'r adran hon yn ceisio'i gyflawni.

Dylai'r brif egwyddor ganolbwyntio ar sicrhau cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n briodol i angen y plentyn. Yn hyn o beth, mae'n ymddangos bod y cwestiwn hwn yn cael ei seilio ar y rhagdybiaeth fod pob plentyn byddar a'r rhai sydd â nam ar ei glyw yn grŵp unffurf. Mae angen i'r cynnig cwricwlwm fod yn hygyrch i bawb, ni waeth beth yw eu hanghenion. Er ei bod yn ddefnyddiol nodi sut beth allai dilyniant fod, dylid integreiddio'r defnydd o laith Arwyddion Prydain ym mhob agwedd ar y cwricwlwm, a'i alinio ag anghenion unigol dysgwyr, a rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw angen addysgol arbennig ac addasiad rhesymol.

**Cwestiwn 7** – A oes yna unrhyw agweddau ar yr arweiniad hwn sy'n rhy ragnodol, yn eich barn chi?

<b>Oes</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Esboniwch eich ateb**

Mae'r arweiniad yn darparu enghreifftiau defnyddiol o sut gellir integreiddio laith Arwyddion Prydain mewn cynllunio, cyflwyno a gweithredu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen cymorth ac adnoddau cydlynus sylweddol i gyflawni'r cyfeiriadau a ddarperir. Ni sonnir yn yr ymgynghoriad am sut bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Gallai'r "ystyriaethau ar gyfer darpariaeth" ddarparu pwyntiau defnyddiol ar gyfer myfyrio a hunanasesu i ysgolion a lleoliadau eraill. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, mae'n debygol y bydd angen cymorth ac adnoddau cydlynus sylweddol.

Mae grwpiau eraill o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a allai elwa ar y sylw a'r ffocws penodol a roddir i ddysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw.

**Cwestiwn 8** – A oes yna unrhyw agweddau ar yr arweiniad hwn nad ydynt yn ddigon manwl, yn eich barn chi?

<b>Oes</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Esboniwch eich ateb**

Nid yw'n glir pa strategaeth sy'n cael ei rhoi ar waith i gyflawni'r uchelgeisiau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen.

**Cwestiwn 9** – A oes yna unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn yr arweiniad hwn, yn eich barn chi?

<b>Oes</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac oes</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Esboniwch eich ateb**

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y strategaeth sydd ei hangen i gefnogi'r uchelgeisiau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen. Er enghraifft, nid yw'r ymgynghoriad yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â sut bydd medrau, hyder a galluogrwydd y gweithlu yn cael eu datblygu. Yn ychwanegol, nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at y [Ddeddf] Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg na'r rhaglen drawsnewid i gefnogi rhoi hyn ar waith, yn benodol mewn perthynas â datblygu'r gweithlu.

**Cwestiwn 10** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai arweiniad y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Dylai plant byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw gael mynediad llawn a chyfartal at y cwricwlwm. Mae dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau eraill i sicrhau bod addasiadau priodol a rhesymol ar waith.

**Cwestiwn 11** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid arweiniad arfaethedig y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn:

- i) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) peidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.



## Sylwadau ategol

Dylai dysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw allu manteisio ar addysg yn yr iaith o'u dewis.

Dylai'r staff allu cyflwyno darpariaeth ar gyfer dysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 12** – Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

At ei gilydd, mae'r deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw gryn dipyn yn is na deilliannau addysgol dysgwyr heb nam ar eu clyw. Fodd bynnag, nid oes anabledd dysgu o reidrwydd gan ddysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw.

Rydym ni'n cefnogi ymdrechion i wella profiad dysgu, deilliannau addysgol a chyfleoedd bywyd pob dysgwr yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod yna grwpiau eraill o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, ond nid anabledd dysgu o reidrwydd, y mae eu deilliannau addysgol yr un mor wael. Byddem yn ddiolchgar i wybod pa gamau sy'n cael eu cymryd o ran ymgynghoriadau / dogfennau arweiniad sy'n rhoi ystyriaeth gyfartal i anghenion grwpiau eraill o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

Yn 2018, cyhoeddodd ni [arweiniad atodol ar nam ar y clyw](#). Datblygwyd yr adnodd trwy ymgynghori â'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar. Mae arolygwyr yn gweld yr arweiniad yn ddefnyddiol wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg, ac mae darparwyr yn gweld yr arweiniad yn fuddiol wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Yn [Adroddiad Blynyddol](#) 2019-2020, nododd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi fod y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA), yn gwneud cynnydd da o leiaf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mewn ysgolion lle mae safonau'n dda neu'n well. Pan mae angen gwella'r addysgu, mae'n aml o ganlyniad i ddisgwyliadau isel a chynllunio gwael. Mae diffygion yn cynnwys peidio ag adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol disgyblion, na darparu lefel briodol o her, yn cynnwys ar gyfer y rhai ag AAA.

Yn ein harolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol, nodwyd yn Wrecsam, er enghraifft, bod swyddogion yn gweithio'n dda gyda'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau bod plant ag anawsterau lleferydd ac iaith a'r rhai â nam ar eu golwg neu ar eu clyw yn gallu manteisio ar gyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol. Mae partneriaethau'n darparu cymorth gwerthfawr i helpu dysgwyr i oresgyn ystod o rwystrau o ran eu dysgu a'u datblygiad personol. Mewn arolygiad diweddar o'r sector dysgu oedolion yn y gymuned, nodom fod llawer o diwtoriaid yn cefnogi

anghenion penodol dysgwyr yn dda, yn cynnwys y rhai â gorbryder cymdeithasol, anawsterau llythrennedd a namau ar eu clyw.

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd [adroddiad arfer dda ar ddisgyblion ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd](#). Defnyddiom dystiolaeth arolygu ddiweddar ac ymweliadau â 24 o ysgolion ledled y wlad i bennu bod arfer dda yn canolbwyntio ar y canlynol: darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA; ymgysylltu â phobl eraill i gefnogi disgyblion ag AAA; ac arweinyddiaeth effeithiol o ran AAA. Amlygwyd nifer o astudiaethau achos yn ein hadroddiad.

O ran dysgwyr byddar a'r rhai sydd â nam ar eu clyw, nododd yr adroddiad thematig fod ystyriaeth fanwl wedi cael ei rhoi i'r amgylchedd ffisegol yn Ysgol Gynradd Cogan ym Mro Morgannwg, er enghraifft. Mae lloriau arbenigol, fel teils acwstig ac ardaloedd â charped yn y rhan fwyaf o ardaloedd dosbarthiadau arbenigol ac ysgolion prif ffrwd yr awdurdod lleol. Mae ymrwymiad yr ysgol i gynnwys disgyblion â nam ar eu clyw yn llawn yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol. Cynhelir digwyddiadau proffil uchel, ysgol gyfan, fel yr wythnos flynyddol ymwybyddiaeth o fod yn fyddar. Mae yna bob amser "arwydd yr wythnos", y mae pob disgybl yn ei ddysgu a'i ddefnyddio gyda'u cyfoedion. Mae cyfathrebu a gwaith partneriaeth cryf yn amlwg hefyd. Yn Ysgol Gynradd Parcyrhun yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, mae uwch arweinwyr ac athrawon yn yr ysgol prif ffrwd yn gweithio'n agos iawn i gynllunio profiadau dysgu sy'n briodol i anghenion dysgwyr. Mae'r cydweithio hwn yn helpu pob un o'r staff i ddatblygu eu medrau i gefnogi anghenion dysgwyr â namau ar eu clyw.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: